# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2011.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, K. P. Hughes, T. H. Jones, R. L. Owen, Hefin W. Thomas, J. P. Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW :** | Rheolwr Rheoli Cynllunio (DFJ)<br>Cynorthwy-ydd Cynllunio<br><br>Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) (JRWO),<br>Swyddog Rheoli Datblygu (RE),<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIAD:** | Y Cynghorydd W. T. Hughes |

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a'u nodi fel uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb a'u cofnodi o dan yr eitemau perthnasol.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Ionawr 2011 fel rhai cywir.

**4 YMWELIADAU SAFLE**

Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

**5 Y CYHOEDD YN SIARAD**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn siarad yn y cyfarfod hwn.

**6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO**

Nid oedd unrhyw geisiadau wedi'u gohirio yn y cyfarfod hwn.

**7 CEISIADAU'N CODI O'R COFNODION**

**7.1 17C302A - Addasu'r adeiladau allanol presennol yn 2 uned wyliau hunangynhwysol yngyd â gosod tanc septig newydd yn Wern Farm, Ffordd Pentraeth, Porthaethwy.**

*(Datganodd y Cynghorydd Selwyn Williams ddiddordeb yn y cais hwn a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio arno).*

Yr Aelod Lleol oedd wedi gofyn am i'r cais hwn gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2010, fe benderfynwyd ymweld â'r safle. Ymwelwyd â'r safle ar 15 Rhagfyr 2010 ac roedd yr aelodau bellach yn gyfarwydd â'r safle.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais o safbwynt cynllunio ond roedd yr Adran Priffyrdd wedi argymell yn gryf bod y cais yn cael ei wrthod oherwydd bod cyffordd y ffyrdd sy'n gwasanaethu'r safle yn is-safonol o ran gweledig. Nododd bod traffig i'w weld fel pe bai'n torri'r cyfyngiad cyflymder yn yr ardal pan gynhaliwyd yr ymweliad safle.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd E. G. Davies nad oedd yn amlwg yn ystod yr ymweliad safle, yn ei farn ef, bod y traffig yn mynd yn gyflymach na'r cyfyngiad cyflymder fel yr oedd y swyddog yn ei awgrymu. Dywedodd bod yna dair ffordd bosib o fynd i mewn i'r safle ac roedd yn ystyried bod y fynedfa ger y groeslon i Lansadwrn yn ddigonol, gan fod traffig lleol yn defnyddio'r groeslon hon yn rheolaidd. Cynigiodd bod y cais yn cael ei ganiatáu.

Roedd y Cynghorydd H. W. Thomas yn cytuno gyda'r Aelod Lleol ynglyn â'r fynedfa ger croeslon Llansadwrn a'i bod yn ddigonol. Gofynnodd a oedd gan yr Adran Briffyrdd gofnod o'r damweiniau yn ddiweddar yn yr ardal hon. Dywedodd y Prif Beiriannydd (Rheoli Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus) bod tair damwain wedi digwydd yn yr ardal yn ddiweddar; roedd un person wedi cael ei ladd a dau berson arall wedi cael eu niweidio yn y digwyddiadau eraill. Nododd y Cynghorydd Thomas ei fod yn eilio'r cynnig gan yr Aelod Lleol i ganiatáu'r cais.

Dywedodd y Cynghorydd J. P. Williams mai cais oedd hwn am unedau gwyliau ac y byddai hynny'n cynyddu'r traffig ac felly cynigiodd bod y cais yn cael ei wrthod. Eiliodd y Cynghorydd Lewis Davies bod y cais yn cael ei wrthod ac roedd y Cynghorydd K. P. Hughes hefyd o blaid derbyn yr argymhelliad.

Yn dilyn trafodaethau pellach, **PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog a'i argymhelliad o wrthod.**

## 8 CEISIADAU ECONOMAIDD

Nid oedd unrhyw geisiadau economaidd i'w hystyried yn y cyfarfod.

## 9 CEISIADAU FFORDDIADWY

Nid oedd unrhyw geisiadau fforddiadwy i'w hystyried yn y cyfarfod.

## 10 CEISIADAU'N TYNNU'N GROES

Nid oedd unrhyw geisiadau oedd yn tynnu'n groes i bolisi i'w hystyried yn y cyfarfod.

## 11 CYNIGION DATBLYGU CYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

### 11.1 39C463B - Cais llawn i godi 2 annedd bâr ynghyd â gwaith altro i'r fynedfa bresennol ar dir yng nghefn 1 a 2 Trem Eryri, Porthaethwy

*(Datganodd y Cynghorydd Selwyn Williams ddiddordeb yn y cais hwn a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio arno).*

Roedd y cais hwn yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i'r Aelod Lleol. Roedd y cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sydd yn angenrheidiol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod gwybodaeth newydd wedi'i derbyn gan yr Adran Gynllunio y bore hwn ac felly bydd yn rhaid gohirio'r cais.

**PENDERFYNWYD gohirio unrhyw ystyriaeth ar y cais.**

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

### 12.1 19C608M - Amrywio amod (01) o ganiatâd cynllunio 19C608K/DA i ganiatá cynllun cyfnodi newydd ar dir yn Tyddyn Bach, Ffordd Ynys Lawd, Caergybi.

Roedd y cais yn dod gerbron y Pwyllgor ar ofyn yr Aelod Lleol.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod y caniatâd cynllunio wedi cael i ganiatáu yn 2008 ar gyfer 123 annedd ar y safle hwn.  Roedd y caniatâd yn dweud y dylai'r datblygiad gael ei adeiladu mewn 5 cyfnod gyda dim mwy na 30 annedd ym mhob cyfnod.  Roedd y cynnig hwn yn un i gyfuno cyfnodau 1 a 2 oedd yn cyfateb i ddatblygu 60 annedd gyda 43 ohonynt yn rhai marchnad agored ac 17 o dai fforddiadwy; bydd yr holl waith priffyrdd ac isadeiledd yn cael e gwblhau fel a nodir yn y caniatâd roddwyd i'r cais yn 2008.

Dywedodd y Swyddog bod yr adran wedi ailedrych ar yr Asesiad Iaith Gymraeg gwblhawyd yn ystod cyfnod amlinellol y cais a'i fod wedi'i ddiweddaru ac fe gafwyd cytundeb na fyddai cyfuno'r ddau gyfnod yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad ac argymhelliad y Swyddog o ganiatáu, gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

### 12.2 19C894M - Dileu amodau 3, 4 a 5 ar ganiatâd cynllunio 19C894E er mwyn gallu cysylltu gyda’r brif garthffos yn y Ty Celtaidd, 41-43 Stryd y Farchnad, Caergybi

Roedd y cais yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor oherwydd iddo gael ei gyflwyno gan Gynllun Adfywio Caergybi sydd yn rhan o'r Cyngor Sir.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio bod Dwr Cymru wedi gwrthod caniatáu'r cysylltiad i'r brif garthffos ar y dechrau, ond bod y cwmni bellach wedi tynnu'r gwrthwynebiad yn ôl.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog a'i argymhelliad o ganiatáu, gyda'r amodau oedd yn yr adroddiad.**

## 13 MATERION ERAILL

### 13.1 Adolygiad o Reolau Gweithdrefn Materion Cynllunio

Cyflwynwyd - adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) mewn perthynas â'r newid arfaethedig i'r Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio ("y Rheolau") sydd i'w gweld yn adran 4.6 o'r Cyfansoddiad.

Nododd y Cadeirydd y bydd y Rheolau diwygiedig a fwriedir yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w hystyried a'u mabwysiadu.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac y gall yr aelodau drafod y Rheolau Gweithdrefn yn y cyfarfod o'r Cyngor llawn.**

## 14 CEISIADAU A DDIRPRIWYD

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio yng nghyswllt ceisiadau dirprwyedig a benderfynwyd ers y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn.

## 15 APELIADAU

**15.1** APP/L6805/A/10/2135537 - Tir yn gyfagos i Shandy, Lôn Dryll, Llanfairpwll **- gwrthod yr Apêl.**

**15.2** APP/L6805/A/10/2138120 - Tir yn gyfagos i Bwthyn Penrhyn, Pentre Berw, Gaerwen - **gwrthod yr Apêl.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 1.25pm

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS**
**CADEIRYDD**